Joint review

Cydadolygiad

Holiadur ar gyfer Partneriaid a Rhanddeiliaid



SSIW AGCC
SOCIAL SERVICES INSPECTORATE FOR WALES
AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Holiadur ar gyfer Partneriaid a Rhanddeiliaid

Cyflwyniad

Cydadolygiad yw archwiliad a gynhelir o holl swyddogaethau awdurdod lleol ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Fe'i cynhelir bob pum mlynedd. Deillia'r enw cydadolygiad o'r ffaith bod y cyfrifoldeb am reoli rhaglen gyfan yr adolygiadau ac am gynnal pob adolygiad unigol yn cael ei rannu gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru.

Pwrpas cydadolygiadau felly yw:

- asesu'n wrthrychol, ar sail tystiolaeth, pa mor dda y mae'r bobl yn cael eu gwasanaethu gan eu gwasanaethau cymdeithasol;
- cyfrannu'n adeiladol at wella ymhellach y gwasanaethau a ddarperir;
- helpu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr;
- sicrhau gwell gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol.

Defnyddir nifer o wahanol ddulliau i farnu pa mor dda y mae pobl yn cael eu gwasanaethu gan y gwasanaethau cymdeithasol a pha mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi'i drefnu ei hun i gynnal a gwella gwasanaethau.

Mae taflen ar gael o'r enw *Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwybodaeth am Gydadolygiadau ar gyfer Partneriaid a Rhanddeiliaid* sy'n disgrifio sut y cynhelir cydadolygiadau a'r rhan y mae'r holiadur yn ei chwarae. Ceir gwybodaeth fwy manwl yn yr *Arweiniad i Gydadolygiadau yng Nghymru* a'r pecyn cydadolygu. Mae'r ddau ar gael ar y wefan.

Sut y defnyddir yr wybodaeth a ddaw o'r holiadur

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu drwy gyfrwng yr holiadur hwn i:

- ddeall y materion allweddol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol yn well;
- clustnodi meysydd y byddwn yn ymchwilio'n fanylach iddynt;
- rhoi tystiolaeth wrth ffurfio barn.

Anfonir yr holiadur allan yn gynnar yn y broses adolygu, tra bo'r tîm yn ceisio sicrhau dealltwriaeth eang o'r ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio a sut maent yn cydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Dyma'ch cyfle chi i gynnig safbwynt eich adran neu'ch sefydliad mewn perthynas â nifer o faterion allweddol ar adeg bwysig iawn, er mwyn helpu i lunio gwaith y tîm.

Atebwch y cwestiynau yn onest. Bydd yr holiaduron yn cael eu dadansoddi a'u trafod gyda'r awdurdod lleol yn ystod y cydadolygiad ac yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad fydd yn cael ei gyhoeddi. Gall y tîm cydadolygu gynnwys dyfyniadau dienw yn yr adroddiad fydd yn cael ei gyhoeddi. Bydd y dyfyniadau yn dod o sawl ffynhonnell, gan gynnwys yr holiadur hwn.

Sut i lenwi'r holiadur

Mae tair rhan i'r holiadur.

Rhan 1 - Y ffordd y caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu trefnu yn yr awdurdod lleol hwn

Rhan 2 - Y gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir

Rhan 3 - Yr argraff gyffredinol.

Gofynnir i chi lenwi pob rhan.

Y cyfan sydd rhaid i chi ei wneud yw rhoi tic mewn un blwch gyferbyn â phob datganiad. Mae'n bosibl y bydd rhai am wneud sylwadau ychwanegol, efallai am feysydd sy'n eithriadol o dda neu feysydd sy'n peri pryder. Mae lle i chi roi sylwadau ar ddiwedd pob adran. Mae croeso i chi ddefnyddio cefn y ffurflen neu dudalen ychwanegol o bapur.

Mae fersiwn electronig o'r ffurflen ar gael os bydd angen.

Diolch i chi am eich cymorth

Rhowch fanylion am y sawl sy'n llenwi'r holiadur

Enw: _____

Swydd: _____

Adran/Sefydliad: _____

Cyfeiriad: _____

_____

_____

Rhif ffôn: _____

Cyfeiriad e-bost: _____

RHAN 1 - Y ffordd y caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu trefnu yn yr awdurdod hwn

Cynllunio a phartneriaeth

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
1. Mae strwythurau a phrosesau cynllunio effeithiol sy'n cynnwys yr holl rhanddeiliaid ar gael ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.	☐	☐	☐	☐	☐
2. Mae strategaethau a chynlluniau clir yn eu lle.	☐	☐	☐	☐	☐
3. Caiff cynlluniau eu llunio yn dilyn asesiad cynhwysfawr o angen sy'n seiliedig ar wybodaeth feintiol ac ansoddol.	☐	☐	☐	☐	☐
4. Caiff cynlluniau eu llunio yn ôl y galw presennol am y gwasanaeth a'r rhagamcanion ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol.	☐	☐	☐	☐	☐
5. Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ran mewn cynllunio'r gwasanaeth a'i ddatblygu.	☐	☐	☐	☐	☐
6. Mae yna dystiolaeth dda o welliannau yn y gwasanaeth a gyflawnwyd ar sail y cynlluniau ar y cyd.	☐	☐	☐	☐	☐
7. Mae yna dystiolaeth dda bod y gwasanaeth wedi'i ad-drefnu'n ddigonol ar sail y cynlluniau ar y cyd.	☐	☐	☐	☐	☐

Comisiynu a chontractio

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
8. Mae gan y gwasanaethau cymdeithasol ystod briodol o strategaethau comisiynu.	☐	☐	☐	☐	☐
9. Mae'r strategaethau hyn yn adlewyrchu cynlluniau'r adran i gael gwasanaethau gwahanol sy'n hyrwyddo annibyniaeth.	☐	☐	☐	☐	☐
10. Mae trefniadau effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau bod partneriaethau posibl yn cael eu hystyried gydag eraill yn y sector statudol.	☐	☐	☐	☐	☐
11. Mae trefniadau effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau bod partneriaethau posibl yn cael eu hystyried gydag eraill yn y sector annibynnol (gwirfoddol a phreifat).	☐	☐	☐	☐	☐
12. Mae trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer contractio, monitro ac adolygu gwasanaethau.	☐	☐	☐	☐	☐

Gweithlu

13. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn medru recriwtio digon o staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol.	☐	☐	☐	☐	☐
14. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn weithredol iawn o ran delio ag unrhyw broblemau wrth recriwtio neu gadw staff.	☐	☐	☐	☐	☐
15. Mae gan y gwasanaethau cymdeithasol rôl arweiniol yn y gwaith o ddatblygu strategaeth ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.	☐	☐	☐	☐	☐

Adnoddau

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
16. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael.	☐	☐	☐	☐	☐
17. Mae pob maes yn derbyn rhan deg o'r adnodd sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.	☐	☐	☐	☐	☐
18. Mae gan y gwasanaethau cymdeithasol systemau da ar gyfer mesur costau unedol.	☐	☐	☐	☐	☐

Arweinyddiaeth

19. Mae systemau ariannol y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n effeithiol.	☐	☐	☐	☐	☐
20. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymroddedig i geisio sicrhau gwerth gorau wrth ddarparu gwasanaethau.	☐	☐	☐	☐	☐
21. Mae rheolwyr ar y lefel uchaf yn cyfathrebu'n dda gyda'r staff.	☐	☐	☐	☐	☐
22. Mae rheolwyr ar y lefel uchaf yn gwybod beth sy'n digwydd ar y lefel sy'n darparu gwasanaeth.	☐	☐	☐	☐	☐
23. Mae rheolwyr ar y lefel uchaf yn arddangos enghreifftiau da o gynnal busnes a thrin pobl.	☐	☐	☐	☐	☐
24. Mae'r strwythur trefniadol/rheoli ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod yn gweithio'n dda.	☐	☐	☐	☐	☐
25. Caiff newidiadau eu rheoli'n dda.	☐	☐	☐	☐	☐

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
26. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dysgu oddi wrth y staff rheng flaen.	☐	☐	☐	☐	☐
27. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dysgu oddi wrth ddefnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr.	☐	☐	☐	☐	☐

Y diwylliant corfforaethol a gwleidyddol

28. Mae arweinyddiaeth wleidyddol glir ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod hwn.	☐	☐	☐	☐	☐
29. Mae aelodau etholedig yn cael gwybodaeth dda ac mae iddynt ran yng ngwaith y gwasanaethau cymdeithasol.	☐	☐	☐	☐	☐
30. Mae nodau'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hybu gan yr awdurdod lleol cyfan.	☐	☐	☐	☐	☐
31. Mae rhannau eraill o'r awdurdod (megis Tai, Addysg a'r ganolfan gorfforaethol) yn helpu i gyflawni gofal cymdeithasol da.	☐	☐	☐	☐	☐
32. Mae cysylltiadau da rhwng yr awdurdod a'r rhanddeiliaid allweddol.	☐	☐	☐	☐	☐

Rhan 2 - Y gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir

Cael gwybodaeth

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
1. Mae gwybodaeth o safon dda ar gael am y gwasanaethau.	☐	☐	☐	☐	☐
2. Mae'r wybodaeth ar gael yn y mannau iawn.	☐	☐	☐	☐	☐
3. Gall defnyddwyr a gofalwyr gael gwasanaethau yn rhwydd yn ystod oriau swyddfa.	☐	☐	☐	☐	☐
4. Mae'r gwasanaeth ar ôl oriau gwaith yn gweithio'n dda.	☐	☐	☐	☐	☐

Asesu

5. Mae'r asesiadau'n cael eu gwneud mewn pryd.	☐	☐	☐	☐	☐
6. Mae systemau effeithiol yn eu lle ar gyfer blaenoriaethu'r gwaith asesu.	☐	☐	☐	☐	☐
7. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu llawer iawn o sylw i farn defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr am sut yr hoffent i'w hanghenion gael eu diwallu.	☐	☐	☐	☐	☐
8. Mae'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddefnyddwyr y gwasanaeth ar hyd ffiniau trefniadol a proffesiynol yn gweithio'n effeithiol.	☐	☐	☐	☐	☐

Rheoli ac adolygu gofal

9. Mae gan ddefnyddwyr gynlluniau gofal ysgrifenedig da sydd wedi'u diweddaru.	☐	☐	☐	☐	☐
10. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn darparu gwasanaeth rheoli gofal strwythuredig, ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda defnyddwyr a gofalwyr.	☐	☐	☐	☐	☐

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
11. Mae'r adolygiadau yn cael eu cynnal mewn pryd.	☐	☐	☐	☐	☐
12. Nid yw defnyddwyr y gwasanaeth yn gorfod delio â gwahanol reolwyr achos/gweithwyr cymdeithasol yn aml.	☐	☐	☐	☐	☐
13. Mae asiantaethau, proffesiynau a darparwyr gwasanaeth eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran helpu gwasanaethau cymdeithasol i reoli achosion.	☐	☐	☐	☐	☐

Ystod y gwasanaethau

14. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi darparu ystod dda o wasanaethau i ddefnyddwyr a gofalwyr.	☐	☐	☐	☐	☐
15. Mae'r ystod o wasanaethau wedi cynyddu yn ystod y tair blynedd diwethaf.	☐	☐	☐	☐	☐
16. Mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd hyblyg gan ymateb i amgylchiadau unigol defnyddwyr a'r gofalwyr.	☐	☐	☐	☐	☐
17. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau.	☐	☐	☐	☐	☐
18. Mae llawer o angen sy'n flaenoriaeth heb ei ddiwallu.	☐	☐	☐	☐	☐
19. Mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu ar sail meini prawf clir i benderfynu pwy sy'n gymwys.	☐	☐	☐	☐	☐

Ansawdd y gwasanaethau

20. Mae ansawdd y gwasanaethau cymdeithasol wedi gwella yn ystod y tair blynedd diwethaf.	☐	☐	☐	☐	☐

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
21. Mae'r gwasanaethau yn ymateb i broblemau ac argyfyngau.	☐	☐	☐	☐	☐
22. Mae gan ddefnyddwyr a gofalwyr lais yn y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rhedeg.	☐	☐	☐	☐	☐
23. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n galed i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith a wneir gyda defnyddwyr y gwasanaeth.	☐	☐	☐	☐	☐

Amddiffyn pobl agored i niwed

24. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cwrdd â'u cyfrifoldebau ar gyfer cadw pobl yn ddiogel.	☐	☐	☐	☐	☐
25. Mae trefniadau yn eu lle i ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd o 'risg'.	☐	☐	☐	☐	☐
26. Mae'r trefniadau aml-asiantaethol ar gyfer diogelu pobl agored i niwed yn gweithio'n dda.	☐	☐	☐	☐	☐

Hybu cynhwysiant cymdeithasol

27. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn chwarae rhan amlwg mewn mentrau sy'n lleihau dibyniaeth ac eithrio cymdeithasol (gan gynnwys gwneud y gorau posib o incwm, cyfleoedd cyflogi/addysg/hyfforddiant).	☐	☐	☐	☐	☐
28. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n galed i drafod gyda defnyddwyr posibl y gwasanaeth mewn grwpiau anodd eu cyrraedd.	☐	☐	☐	☐	☐
29. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu gwaith.	☐	☐	☐	☐	☐

Os dymunwch, gallwch roi sylwadau isod am unrhyw faterion sy'n codi o'r datganiadau yn Rhan 2.

RHAN 3 - Yr argraff gyffredinol

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
Ar y cyfan, mae gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael canlyniadau da.	☐	☐	☐	☐	☐
Ar y cyfan, mae gwasanaethau cymdeithasol wedi'u trefnu'n dda i wella'r gwasanaeth a'r canlyniadau ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr.	☐	☐	☐	☐	☐

Beth yw prif gryfderau'r gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod lleol hwn?

Pa feysydd y mae angen eu datblygu fwyaf?

Sylwadau Ychwanegol